GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.

LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Senedd o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd.

OFFERYNNAU STATUDOL DRAFFT

2008 Rhif

CYFRAITH GYFANSODDIADOL

DATGANOLI, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 4) 2008

Gwnaed - - - - ***

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1

Yn Llys Palas Buckingham, y *** dydd o *** 2008

Yn bresennol

Ei Hardderchocaf Fawrhydi y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**a**) mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi ei osod gerbron a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl a chyda chyngor ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 4) 2008 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

Diwygiadau i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

2.—(1) Diwygir Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(**a**) 2006 (p.32).

GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.

LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.

(2) Ym maes 15 (lles cymdeithasol), ar ôl mater 15.8 mewnosoder—

"Mater 15.9

Ffioedd a godir gan awdurdodau lleol am ofal cymdeithasol dibreswyl a ddarperir neu a sicrheir ganddynt a thaliadau ar gyfer unigolion ag anghenion penodol sy'n ymwneud â'u llesiant fel bod modd iddynt hwy, neu i'r personau sy'n gofalu amdanynt, sicrhau gofal cymdeithasol dibreswyl i ddiwallu'r anghenion hynny."

(3) Yn y tabl ar ddiwedd Rhan 1 (materion a eithrir), mewnosoder ", 15.9"ar ôl "15.8" ym mhob un o'r rhesi sy'n ymwneud â'r materion canlynol a eithrir, sef materion 19, 21, 22, 23, 24 a 25.

Clerc y Cyfrin Gyngor

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Effaith y Gorchymyn yw estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau newydd ar gyfer Cymru drwy Fesur o dan adran 93 o Ddeddf 2006.

Mae'r diwygiadau yn ymwneud â maes 15 (lles cymdeithasol) yn Rhan 1 o Atodlen 5. Mae erthygl 2(2) yn mewnosod mater 15.9, sy'n estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gwmpasu—

- ffioedd am ofal cymdeithasol dibreswyl a ddarperir neu a sicrheir gan awdurdodau lleol;
- taliadau uniongyrchol ar gyfer unigolion fel bod modd iddynt hwy, neu'r personau sy'n gofalu amdanynt, sicrhau gofal cymdeithasol dibreswyl.

Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol estynedig hwn sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau cyffredinol sy'n gymwys i'r broses o arfer cymhwysedd o'r fath yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

Mae erthygl 2(3) yn cymhwyso materion penodedig a eithrir i'r cymhwysedd deddfwriaethol newydd. Mae'r materion a eithrir wedi'u rhestru yn y tabl yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Effaith y tabl yw na chynhwysir y materion a bennir yn y golofn gyntaf ("y materion a eithrir") yn y materion a enwir yn yr ail golofn (y materion a fewnosodir o dan y meysydd). Bydd y materion a eithrir yn y golofn gyntaf y tu allan i gwmpas y materion a bennir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn.

Mae'r materion penodedig a eithrir yn ymwneud â'r canlynol—

- cymorth i blant (mater 19 a eithrir),
- credydau treth (mater 21 a eithrir),
- budd-dal plant a lwfans gwarcheidwad (mater 22 a eithrir),
- nawdd cymdeithasol (mater 23 a eithrir),
- cronfeydd byw'n annibynnol (mater 24 a eithrir), a
- motability (mater 25 a eithrir).